



Cylchlythyr Tymor yr Hydref



Annwyl rieni/gwarchodwyr,

Ddoe, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg nifer o fesurau a fydd yn effeithio ar yr ysgol o fis Ionawr o ganlyniad i'r cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion a gadarnhawyd o Covid-19. Bydd llythyr manylach yn cael ei rannu gyda chi ar Ddydd Llun, Ionawr 3^{ydd}, ond dyma'r penawdau:

- Mae gan yr ysgol 2 Ddiwrnod Cynllunio a Pharatoi ar Ddydd Mawrth, Ionawr 4^{ydd} a Dydd Mercher, Ionawr 5^{ed}, sy'n golygu, fel y mae pethau ar hyn o bryd, y bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar **Ddydd Iau, Ionawr 6^{ed}**
- Bydd gollwng a chasglu disgyblion yn gyfnodol, gyda disgyblion a rhieni yn ffurfio rhesi trefnus wrth y gatiau, yn ôl eu hamseroedd penodedig (amserlen i'w rhannu gyda chi ym mis Ionawr);
- Mae clybiau allgyrsiol y tymor nesaf wedi'u canslo;

Gall y sefyllfa newid dros y pythefnos nesaf ac mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru fel y mae heddiw. Byddaf yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda chi, ynghyd â chrynodeb manylach o sut y bydd yr ysgol yn gweithredu yn y flwyddyn newydd, yn fy llythyr atoch ar Ionawr 3^{ydd}.

Ar ddiwedd tymor brysur, hoffwn yn y lle cyntaf ddiolch o galon i chi fel rhieni a gofawyr am bob cefnogaeth dros y tymor heriol. Mae dal gennym daith hir o'n blaenau o hyd tan gall bywyd ysgol a chymdeithas ddychwelyd i'r arfer, ond trwy gydweithio yn y ffordd arbennig rydym wedi gwneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf, byddwn yn medru sicrhau lles ac hapusrwydd pob plentyn dan ein gofal.

Diolch yn fawr i chi am atgyfnerthu negeseuon yr ysgol o ran glynu at safonau hylendid golchi dwylo a thisian, gwisgo mygydau wrth gatiau'r ysgol, a chadw pellter.

Hoffwn rhoi clod enfawr i'r plant, maen nhw llawn egni a brwdfrydedd, gan fwrw ymlaen gyda'i gwaith yn ddi-ffwdan, a gwneud eu gorau glas gyda'r holl drefniadau Covid-19. Rwyn teimlo'n hynod o falch o bob plentyn, mae eu positifrwydd yn esiampl i ni gyd!

Yn olaf hoffwn ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith di-flino eleni. Maen nhw wedi bod yn gweithio'n gyson ers mis Medi a chyn hynny, yn blaenoriaethu addysg a lles y plant. Rwyn hynod o lwcus fel pennaeth i gydweithio â phobl mor gydwybodol a phroffesiynol.

Dear Parents/Guardians,

The Minister for Education and Welsh Language announced yesterday a number of measures that will impact on the school from January as a result of the substantial increase in confirmed cases of Covid-19. A more detailed letter will be shared with you on Monday, January 3rd, but here are the headlines:

- *The school has 2 Planning & Preparation Days on Tuesday, January 4th and Wednesday, January 5th, which means that, as things stand, pupils will return to school on **Thursday, January 6th**;*
- *The arrival and collection of pupils at school will be staggered, with pupils and parents forming an orderly queue at the gates, according to their allocated times (timetable to be shared with you in January);*
- *Next term's extra-curricular clubs have been cancelled;*

The situation could change over the next 2 weeks and this information is based on the Welsh Government's guidance as it stands today. I will share the latest information with you, along with a more detailed summary of how the school will operate in the New Year, in my letter to you on January 3rd.

At the end of a busy term, I would like to first thank you as parents and carers for all your support during the challenging term. We still have a long journey ahead, until school and society life can return to normal, but by working together in the exceptional way we have done over the last two years, we will be able to ensure the well-being and happiness of every child under our care.

Thank you very much for reinforcing the school's messages on adhering to hygiene standards for hand washing and sneezing, wearing masks at the school gates and maintaining a social distance.

I would like to give a huge credit to the children, they are full of energy and enthusiasm, getting on with their work with ease, and doing their very best with Covid-19 arrangements. I feel extremely proud of every child; their positivity is an example to us all!

Finally, I would like to thank all the staff at the school for their tireless work this year. They have been working consistently since September and before, prioritizing the education and welfare of the children. I am extremely lucky as a head teacher to work with such conscientious and professional people.

*Mwynhewch eich gwyliau, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi eto'r tymor nesaf.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!*

*Enjoy your holidays, and I look forward to working with you again next term.
Merry Christmas and a Happy New Year!*



Yn ddiffuant/Yours faithfully

Mrs C Evans

Dyddiadur Tymor y Gwanwyn / Diary of the Spring Term

Dyma i chi drosolwg dyddiadau allweddol ar gyfer tymor y Gwanwyn. Bydd manylion pellach am y digwyddiadau hyn yn cael eu rhannu gyda chi maes o law.

O ganlyniad i'r sefyllfa bresennol, mae nifer o bartneriaid yr ysgol wedi methu â chadarnhau dyddiadau gyda ni. Wrth i ddigwyddiadau a dyddiadau ychwanegol gael eu hychwanegu at galendr yr ysgol, byddwn yn eu rhannu nhw gyda chi.

**** Gall pob dyddiad newid oherwydd Covid-19****

Here is an overview of some key dates for your diary for the autumn term. Further details of all these events will be shared with you closer to the time.

Due to the current situation, a number of partner organisations are not in a position to confirm dates with us at the moment. As further events and dates are added to the school's calendar, these will be shared with you.

**** All dates are subject to change due to Covid-19****

Dyddiadur Tymor y Gwanwyn/ Diary of the Spring Term		
Dyddiad/Date	Pwy?/Who?	Digwyddiad/Event
20/12/19 – 31/12/21	Ysgol gyfan/ <i>Whole school</i>	Gwyliau Nadolig - Nadolig Llawen! <i>Christmas Holidays – Merry Christmas!</i>
4+5/1/22	Ysgol gyfan/ <i>Whole school</i>	Dau ddiwrnod paratoi a chynllunio / <i>Two days for preparations and planning</i>
6/1/22	Ysgol gyfan/ <i>Whole school</i>	Diwrnod cyntaf tymor y Gwanwyn – Blwyddyn newydd Dda! <i>First day of the Spring term – Happy New Year!</i>
7/1/22	BI 1/2 + BI 5/6	Swyddog Dân yn rhoi gwersi ar ddiogelwch a pheryglon tân/ <i>Fire Officer teaching about the dangers of fire and safety</i>
25/1/22	Ysgol gyfan/ <i>Whole school</i>	Dydd Santes Dwynwen / <i>St Dwynwen's day</i>
4/2/22	Ysgol gyfan/ <i>Whole school</i>	Dydd Miwsig Cymru / <i>Wales Music Day</i>
7/2/22	Rieni / <i>Parents</i>	Cyfarfod rhithiol Fforwm Rieni ar Teams 4:00 – 5:00 / <i>Online Parent Forum meeting on Teams 4:00 – 5:00</i>
7/2/22 – 18/2/22	BI 3/4	Gwersi nofio yn ddyddiol / Daily swimming lessons
8/2/22	Ysgol gyfan/ <i>Whole school</i>	Diwrnod E-ddiogelwch / <i>E-safety day</i> Gwersi diogelwch ar y we gan PC Hughes i bob dosbarth/ <i>Online safety lessons by PC Hughes for all classes</i>
8/2/22	Rhieni / <i>Parents</i>	PC Hughes yn siarad am ddiogelwch ar y we i rieni / <i>PC Hughes discussing online safety for parents</i>
21/2/22 – 25/2/22	Ysgol gyfan/ <i>Whole school</i>	HANNER TYMOR/HALF TERM
1/3/22	Ysgol gyfan/ <i>Whole school</i>	Dydd Gwyl Dewi / <i>St David's Day</i>
3/3/22	Ysgol gyfan/ <i>Whole school</i>	Diwrnod y Llyfr / <i>World Book Day</i>
18/3/22	Ysgol gyfan/ <i>Whole school</i>	Dydd Trwynau Coch / <i>Red Nose Day</i>
24/3/22	BI 5/6	Gwersi am ymddygiad gwrthgymdeithasol a pheryglon cyffuriau gan PC Hughes / <i>Anti-social behaviour and the dangers of drugs lesson from PC Hughes</i>
21 + 22/3/22	Ysgol gyfan/ <i>Whole school</i>	Noson rieni unigol rhithiol dros Teams / <i>Online individual Parents evening over Teams</i>
11/4/22 – 22/4/22	Ysgol gyfan/ <i>Whole school</i>	Gwyliau'r Pasg / <i>Easter holidays</i>